DAVIES, HOWEL (c. 1716 - 1770), offeiriad Methodistaidd

Enw: Howel Davies
Dyddiad geni: c. 1716
Dyddiad marw: 1770
Priod: Elizabeth Davies (née White)
Priod: Catherine Davies (née Poyer)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: offeiriad Methodistaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Bernir mai brodor o sir Fynwy ydoedd, ond gwyddys fod ewythr iddo yn byw yn Llanspyddid, sir Frycheiniog. Daw i'r golwg gyntaf fel ysgolfeistr yn Nhalgarth yn 1737, a chafodd dröedigaeth dan weinidogaeth Howel Harris. Aeth i Landdowror ar gyngor Harris i'w addysgu gan Gruffydd Jones. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn 1739 ac yn offeiriad yn 1740. Bu'n gurad dan Gruffydd Jones yn Llandeilo Abercywyn, ond symudodd i Lys-y-frân, Sir Benfro, yn 1741, a gwasanaethodd fel curad yno am dymor byr. Priodod Catherine Poyer, aeres gyfoethog, yn 1744, ac aeth i fyw i'r Parke, ger y Tŷ-gwyn-ar-Daf. Ar farwolaeth ei wraig priodod Elizabeth White, a chadwai dý ym Mhrendergast, ei chartref. Daeth Margaret, ei unig ferch, yn wraig i Nathaniel Rowland, mab y diwygiwr. Bu farw 13 Ionawr 1770, yn 53 mlwydd oed, â'i gladdu ym Mhrendergast. Cyfathrachodd a'r Methodistiaid o 1737 hyd ei farw, a mynychai eu sasiynau. Teithiodd dros Gymru i bregethu, ond fe'i cyfyngodd ei hun yn ei flynyddoedd olaf i Sir Benfro. Gwnaeth ddefnydd o gapeli anwes adfeiliedig y sir, ac iddo ef y codwyd capel Woodstock yn 1755 a'r Capel Newydd yn 1763. Yr oedd yn efengylydd melys, a chyhoeddwyd un o'i bregethau yn 1762 o wasg Rhys Thomas, Caerfyrddin, dan y teitl *Llais, y Durtur*, etc., ac un arall yn 1768, *Llais y Priodfab*, etc., o'r un wasg. Nid heb achos y gelwir ef yn 'Apostol sir Benfro.'

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

W. Williams, *Marwnad ar y Parchedig Mr. H. Davies chaplain i'r Wir Anrhydeddus Countess Walsingham yr hwn a fu farw y 13, o Ionawr, 1770, yn 53 flwyddyn o'i oed = An English elegy on the Rev. Mr. H. Davies chaplain to the Right Hon. Countess of Walsingham who departed this life January 13th, 1770 in the 53rd year of his age who was likewise a pastor of four large Congregations in Pembrokeshire* (Llanymddyfri 1770)

'Cofiant y Parch. Howel Davies,' *Y Drysorfa*, Ionawr a Chwefror 1834, 1-4, 33-36

R. Bennett, *Blynyddoedd cyntaf Methodistiaeth* (1909), 154, 188

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), i, 128-40

M. H. Jones, *The Trevecka Letters, or the unpublished MSS. correspondence of Howell Harris and his contemporaries* (1932), 75

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, iii, 96-106; iv, 7; xiii, 40; xx, 74-80; xxiii, 128; xxxii, 19, 109

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733179

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Roberts, G. M., (1953). DAVIES, HOWEL (c. 1716 - 1770), offeiriad Methodistaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-HOW-1716

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government